# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-05-11**

## CA532: Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2011

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2009 fel y'i diwygiwyd yn flaenorol gan O.S. 2010/2288 ("y prif Reoliadau") er mwyn darparu ar gyfer gweithredu, yng Nghymru, drefniadau trosiannol a gynhwyswyd yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2011/8/EU sydd yn diwygio Cyfarwyddeb 2002/72/EC o ran cyfyngu ar y defnydd o Bisffenol A mewn poteli bwydo babanod wedi eu gwneud o blastig ("Cyfarwyddeb newydd y Comisiwn"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn darparu ar gyfer gweithredu'r trefniadau trosiannol yng Nghyfarwyddeb newydd y Comisiwn.

### Gwaith Craffu Technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:-

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r pwer y mae Gweinidogion Cymru yn ei arfer, a gynhwysir o fewn is-adran (2) (a) o adran 26 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n gosod dyletswydd ar bersonau sy'n ymgymryd ag unrhyw weithgarwch y mae'r rheoliadau yn berthnasol iddynt i gadw a dangos cofnodion a'u cyflwyno. Nid oes unrhyw ddefnydd o'r pwer o fewn is-adran (2) (a) o'r Rheoliadau hyn, felly mae'r pwer hwn yn ddiangen o ran gofynion y Rheoliadau hyn.

Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r draft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion stadudol.

### Craffu ar rinweddau

O dan Reol Sefydlog 15.3, ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol,**
**Chwefror 2011**

### Ymateb y llwyodraeth i'r pwynt a nodwyd gan gynghorywr cyfreithiol y pwyllgo

Pwynt a godwyd gan y Cynghorwyr Cyfreithiol

1.Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn nodi'r pwynt a ganlyn fel pwynt adrodd o dan R.S. 15.2:

"Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r pwer y mae Gweinidogion Cymru yn ei arfer, a gynhwysir o fewn is-adran (2) (a) o adran 26 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n gosod dyletswydd ar bersonau sy'n ymgymryd ag unrhyw weithgarwch y mae'r rheoliadau yn berthnasol iddynt i gadw a dangos cofnodion a'u cyflwyno. Nid oes unrhyw ddefnydd o'r pwer o fewn is-adran (2) (a) o'r Rheoliadau hyn, felly mae'r pwer hwn yn ddiangen o ran gofynion y Rheoliadau hyn."

2. Derbynnir bod y cyfeiriad at is-adran 26(2)(a) yn y Rheoliadau hyn (er iddo fod yn briodol yn y prif reoliadau y maent yn eu diwygio) yn ddiangen am y rheswm a roddir gan y Cynghorwyr Cyfreithiol. Gan nad yw hyn effeithio ar sylwedd y Rheoliadau hyn, nid ystyrir bod angen cymryd unrhyw gamau pellach.